Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Chwefror 2026 yn Adeilad InTec Parc Menai am 7.00

1. **Presennol: /Present** Cllr C W Owen, Vice-chair; Cllr J Pierce; Cllr L A James; Cllr D Jones-Morris; Cllr J Griffiths; Cllr A Joyce; Cllr H Griffiths; Cllr B Jones and the Clerk

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng I Ellis Cadeirydd, Cyng M Jones; Cyng G Owen; a'r Cyng E Roberts.

3. **Croeso / Welcome**
   Cyng C W Owen estynnodd groeso i bawb yn absennoldeb y Cadeirydd Yn ogystal a chroesawy pawb dymunodd adferiad buan i wraig y Cadeirydd oedd wedi derbyn llawdriniaeth. Yn ogystal a hynny cafwyd newyddion da am enedigaeth Kuyffin Daniel Jones mab bach y Cyng M Jones a'i phartner yn Caerhun

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Cyng L A James a Cyng A Joyce yn ymddiriedowyr ar elusen yr hen Ganolfan

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 15fed o Ionawr / January 2026**
   Eu derbyn fel cofnod cywir ar gynnig Cyng J Pierce gafodd ei eilio gan Cyng L A James

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   **Prosiect GwyrddNi** Dim ond y murluniau yn unig gafodd eu cwblhau cyn y dyddiad cau ddiwedd Ionawr a felly dim ond yr elfen hynny o'r grant allwn ni ei dynnu lawr Bydd angen eu gosod yn eu lle a eu cyfro hefo deunydd addas ar ein cost yn hunain
   Ni chafodd y ddol flodau ei chychwyn ond mae son bydd ffenestr arall yn agor yn ystod 2026 ag efallai bydd cyfle bryd hynny i ail ymgeisio a gobaith am dywydd mwy ffarfriol
   **Bancio ar lein** Y broses wedi cychwyn yn ogystal ag agor Cyfrif arwahan i'r Ganolfan newydd
   **Yu Energy** Naid yn y gost o drydan yn y Capel bach oherwydd bod defnydd o drydan wedi digwydd a chost Unedau yn uchel gan y Cwmni yma ond eu 'tal sefydlog' yn isel Wrth i gynyddu defnydd bydd angen chwilio am gyflenwyr gwahanol **Clerc i ymchwilio**
   **Oergell y Ganolfan** Mae yna oergell yn gegin y Ganolfan Newydd felly cytunwyd gynnig oergell yr 'hen' Ganolfan i Ganolfan Glasinfryn **Clerc i drefnu**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
      Cafodd y fantolen ei rhannu yn dangos bod £8,966.47 yn y cyfrif Cyfredol a £42,257.43 yn y cyfrif Cadw Derbynnwyd y fanolen
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 28/01/2026**
      Gan mae hwn oedd ein cyfle olaf i gyfarfod yn y Ganolfan bresennol ychydig iawn o gofnodion ysgrifennwyd gan fod y rhan helaethaf o'r cyfarfod wedi mynd i cofnodi beth oedd angen ei symud i'r ganolfan newydd ag adnabod beth oedd y Cyngor am ei dderbyn fel offer oedd yn eiddo y pwyllgor Rheoli
   iii. **Polisia** Dim o'r newydd

8. **Cynllunio / Planning**

C26/0067/25LL Hwn yn gais ol-weithredol oedd wedi dod ar ol anfon yr Agenda allan Cais yw ar gyfer i leihau'r ardal galed bresennol o 10m, gorchuddio'r ardal â llechi, a lleoli cynhwysydd i storio porthiant anifeiliaid, meddyginiaeth, offer, ac ati. Rhwng y cynhwysydd a'r ras ddefaid bresennol rydym wedi gosod trawstiau i wneud corlan wyna ar ac wedi rhoi dalennau proffil bocs ar y trawstiau.

Trafodwyd bod trigolion lleol wedi bod yn cwyno am y swn oedd yn dod o'r safle ag nad yw'r daliad ynddo ei hun yn cyfiawnhau ffasiwn ddatblygiad a bod amheuaeth os oedd busnes gwahanol i amaethyddiaeth yn cael ei gario allan o'r safle **Gwrthwynebu ar sail twrw Camddefnydd a sefydlogrwydd – dim uned symudol mohono yn enwedig os byddai to yn cael ei osod o'r cynhwysydd i'r ras ddefaid**

**9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Adeilad Intec**

Peth defnydd yn cael ei wneud gan Yoga – Y 'Falls' Grwp a Grwp 'to the satge' er ei bod nhw wedi teimlo yn rhywstredig ar adegau Ysgol Gerdd Williams Mathias heb gychwyn ond yn awyddus i wneud

- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**

Fawr ddim ychwanegol i'w adrodd ond Cheryl o stadau y Cyngor wedi anfon e-bost yn awyddus i gael Cod y drws ystafell Gymunedol a cael gwybod am leoliad y Mesyryddion Trydan a nwy **Clerc i ymateb iddi**

- **Gweithred Lightsouce Deed**

Gweithred eisioes wedi ei arwyddo ond y Clerc wedi derbyn e-bost yn cadarnhau bod ein cyswllt yn Lighthouse wedi gadael ond hefyd wedi cael cyfeiriad ar gyfer anfon y Weithred atynt

**10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng A Joyce - Derbyn adborth o gyfarfod Unllais**

Andrew wedi mynychu cyfarfod unllais ag yn adrodd fod grantiau ar gael i Gynghorau Cymuned a bod cyfarfodydd Cynghorau Cymunned i fod erbyn hyn yn gynghorau Hybrid Soniodd hefyd bod hyfforddiant ar gael tuag at unrhyw faterion yn ymwneud a Cynghorau Cymuned
Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adroddiad a hefyd am fynychu
Cytunwyd i wahodd Mark Gahn o Cyngor Gwynedd i ystyried sefydlu i safle Hybrid yn y Ganolfan newydd wrth i ni symud i mewn yno
**Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adborth a mynychu ar ein rhan**

**- Trafod Rheoleiddio y Ganolfan Newydd**

Mae Is-Grwp wedi ei sefydlu i geisio symud rheoli y Ganolfan newydd a penodi unigolyn i'w rheoli

**Cyng C W Owen**

Caroil wedi gwneud ymholiadau hefo Delwedd ynglyn a chael meddalwedd addas ar gyfer llogi y ganolfan newydd ondychydig iawn iawn sydd yn ddwy -ieithog os o gwbwl a byddai rhaid prynu un uniaith saesneg o bosib a wedyn cael caniatad i'w addasu yn ddwyieithog
**Carol am holi yn ol am brisiau a'r posibilrwydd o'i addasu**

**11. Newyddion**

Perchnogaeth o'r ganolfan newydd yw prif newyddion i fynd ar y wefan y mis yma

Cygnor Cymuned Pentir

# Cyngor Llawn Nos Iau 12fed o Fawrth 2026
# yn y Ganolfan Penrhosgarnedd am 7.00
# Agenda

1. **Presennol: /Present**

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

3. **Croeso / Welcome**

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Chwefror / February 2026**

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

7. **Materion ariannol / Financial Issues**
   - i. **Mantolen ariannol / Financial report**
   - ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/02/2026**
   - iii. **Traelia Aelodau**
   - iv. **Bil Trydan capel bach**
   - v. **Cais Nawdd Grwp Arlunio Glasinfryn**
   - vi. **Cais Nawdd Clwb y Garnedd**
   - vii. **Polisia**

8. **Cynllunio / Planning**

9. **Materion y Clerc / Topics from the Clerk**
   - **Adeilad Intec / Ganolfan**
   - **Grant GwyrddNi**
   - **Grantia yn gyffredinnol**

10. **Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**
    **Cyng H Griffiths** **Cylchfan Tesco yn achosi problemau Traffig**

.

11. **Newyddion**